**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 18**
**Ymateb gan: Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (SDA)**
**Response from: Office of the Independent Adjudicator for Higher Education (OIA)**

---

office of the independent adjudicator

'for students in higher education'

## Cefndir

Penodwyd SDA o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 fel y sefydliad sy'n gweithredu'r cynllun cwynion ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Mae ein cylch gwaith wedi'i ymestyn ddwywaith ers 2015, ac erbyn hyn mae'n ofynnol i'r holl brifysgolion, darparwyr addysg uwch sydd â phwerau dyfarnu graddau a'r rhai sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch a ddynodwyd ar gyfer cynhaliaeth i fyfyrwyr ymuno â Chynllun SDA. Yn ogystal, yn Lloegr mae'n ofynnol i bob darparydd sydd wedi'i gofrestru â'r Swyddfa Myfyrwyr ymuno, yn ogystal â'r rhai sy'n darparu cyrsiau addysg uwch sy'n arwain at gymhwyster a ddyfernir gan aelod o Gynllun SDA, lle mae'r naill sefydliad a'r llall wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae ystod amrywiol o ddarparwyr addysg uwch bellach yn dod o dan Gynllun SDA; o ddarparwyr annibynnol bach sy'n gweithredu'n benodol ar gyfer diwydiant, i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i golegau addysg bellach mawr a phrifysgolion. Mae ein haelodaeth yn cynnwys bron 800 o ddarparwyr.

Mae gan SDA gylch gwaith eang i ystyried cwynion gan fyfyrwyr am unrhyw "weithred neu esgeulustod" gan ddarparydd sy'n perthyn i'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys cwynion am ansawdd gwasanaeth, darpariaeth cyrsiau, ymddygiad myfyrwyr eraill neu staff, materion sy'n codi yn ystod lleoliadau gwaith, problemau gyda llety sy'n eiddo i ddarparwyr, apeliadau academaidd, a gweithdrefnau disgyblu ac addasrwydd i ymarfer.

Ni all SDA ystyried cwynion am farn academaidd. Dim ond cwynion gan fyfyrwyr neu gyn-fyfyrwyr y gallwn ni roi ystyriaeth iddynt; ni allwn ystyried cwynion gan aelodau staff na gan aelodau'r cyhoedd.

Rôl SDA yw adolygu unrhyw weithred neu esgeulustod ar ran darparwyr addysg uwch ac ystyried a ydynt wedi dilyn gweithdrefnau cywir a theg ac wedi dod i benderfyniad rhesymol.
Rydym hefyd yn rhannu arfer da trwy fentrau fel y Fframwaith Arfer Da ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd, yn ogystal â rhaglen allgymorth gynhwysfawr o weithdai, gweminarau, crynodeb o achosion ac ymweliadau â darparwyr.

Cynllun ombwdsmon yw SDA yn hytrach na rheoleiddiwr, ond mae'n rhan o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Mae SDA yn annibynnol ar lywodraethau, rheoleiddwyr, darparwyr addysg uwch a myfyrwyr. Serch hynny, mae SDA yn cydlynu'n rheolaidd â llywodraethau ac yn gweithio gyda chyrff eraill yn y sector i rannu gwybodaeth sy'n cyfrannu at ein priod rolau. Mae SDA yn cael ei gydnabod gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Safonau Masnach (CTSI) fel corff datrys anghydfod amgen (ADR).

**Tystiolaeth - Rhan 5: Amddiffyn dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr**

Mae SDA yn croesawu'r estyniad arfaethedig i'w rôl a'i gylch gwaith fel y corff annibynnol sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion sydd heb eu datrys ar draws y sector. Byddai'r cynigion yn gwella cysondeb amddiffyniad i ddysgwyr ac yn helpu i sicrhau chwarae teg i'r rhai sydd â chwynion heb eu datrys. Rydym hefyd yn croesawu'r ddyletswydd arfaethedig a osodir ar y Comisiwn i sicrhau bod gan ddarparwyr weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion ac i wneud yn siŵr bod darparwyr hefyd yn cymryd camau rhesymol i wneud y weithdrefn yn hysbys i ddysgwyr. Cred SDA y dylai pob dysgwr fod ag eglurder ynghylch sut i fynd ati i unioni eu cwyn.

Mae gwybod y gallwch chi droi at gorff annibynnol sy'n gallu unioni cwynion sydd heb eu datrys, a hynny'n ddi-dâl, yn cyfrannu at well profiad i ddysgwyr. Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddatrys eu pryderon heb fynd i gost, heb orfod mynd i'r llys a heb yr angen am gynrychiolaeth gyfreithiol. Mae delio â chwynion yn y cyd-destun datrys anghydfod amgen hwn yn helpu i unioni'r anghydbwysedd o ran pŵer sy'n bodoli rhwng dysgwyr a darparwyr. Mae adborth gan rai dysgwyr yn dangos eu bod yn fwy parod i dderbyn penderfyniad corff adolygu annibynnol a diduedd fel SDA, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cytuno â'r dyfarniad.

Trwy ein gwaith fel corff cwynion annibynnol, mae'n bosib y byddwn ni'n casglu gwybodaeth sy'n nodi themâu a phryderon am ansawdd a safonau ar draws y sector. Mae gennym brosesau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth â rheoleiddwyr perthnasol a allai lywio gwelliannau o ran ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y sector, gan sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau statudol ac adeiladu ar y berthynas sydd gennym eisoes â CCAUC. Byddem yn croesawu sgwrs gynnar am ein rolau a'n cyfrifoldebau a sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth arfaethedig yn y Bil sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi trwy reoliadau'r darparwyr hynny sy'n sefydliadau cymwys at ddibenion Cynllun SDA. Byddai hyn yn galluogi SDA i gynllunio'n effeithiol a gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod eu prosesau'n glir a thryloyw, ac yn unol â'n Fframwaith Arfer Da, yn ogystal â'n helpu i ddeall nodweddion penodol y rhannau o'r sector sy'n newydd i ni, a'u dysgwyr. Nodwn nad yw'r ddarpariaeth yn y Bil yn caniatáu i Weinidogion ddynodi awdurdodau lleol o ran y ddarpariaeth ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion - credwn fod hwn yn ddull cymesur o ystyried y dirwedd bresennol a'r potensial am ddryswch i ddysgwyr.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda darparwyr newydd a fydd yn ymuno â SDA, a'r aelodau cyfredol hynny a fydd â mwy o ddysgwyr yn gymwys i ddod â chwynion at SDA, yn ogystal â mudiadau myfyrwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ein rôl a sut rydym yn adolygu cwynion. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Comisiwn i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hamddiffyn os aiff pethau o chwith.